# CYNGOR SIR FYNWY

## Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy
## Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
## Dydd Gwener, 21ain Ionawr, 2022, 11.00 am

**CYNGHORWYR YN BRESENNOL:** Cynghorydd Sirol: Tony Easson, R. Edwards, Phil Murphy, D. Havard, R. Clark, P. James

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Nikki Wellington | Rheolwr Cyllid |
| Gareth Peel | |
| Richard Williams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorydd Sirol David Jones
H. Morgan

1. **<u>Datganiadau o Fuddiant.</u>**

Ni wnaed datganiadau o fuddiant.

2. **<u>Cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy.</u>**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2021.

3. **<u>Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy ar gyfer y flwyddyn sydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021 ac Archwiliad Blynyddol o'r Adroddiad Datganiad Ariannol - Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy.</u>**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid y cyfrifon blynyddol ar gyfer y flwyddyn yn dodd i ben yn 2021.

Wrth wneud hynny, nodwyd y byddai'r Rheolwr Cyllid yn trefnu cyfarfod gydag Ymddiriedolaeth Roger Edwards yn haf 2022 i drafod ymwneud gydag Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy yn y dyfodol.

Penderfynwyd cymeradwyo'r cyfrifon.

4. **<u>Ystyried a ddylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem ganlynol o fusnes yn unol gydag Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygir, ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth esempt fel sydd wedi ei ddiffinio ym Mharagraffau 12 a 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf. (Mae barn y Swyddog Priodol wedi ei atodi).</u>**

Cafodd y wasg a'r cyhoedd eu gwahardd o'r cyfarfod pan roddwyd ystyriaeth i'r eitem ddilynol o fusnes yn unol ag Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail ei bod yn ymwneud â datgeliad tebygol gwybodaeth a eithriwyd fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 12 a 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**
**Dydd Gwener, 21ain Ionawr, 2022, 11.00 am**

5. **Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sydd yn ymwneud â'r ceisiadau a dderbyniwyd gan y Gronfa Ymddiriedolaeth ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2021/22.**

Ystyriwyd chwe chais a dderbyniwyd yn erbyn y Gronfa Ymddiriedolaeth, a gyflwynwyd ar ran y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc.

Penderfynodd yr Ymddiriedolaeth:

(i) rhoi dyfarniadau i'r chwech ymgeisydd, fely cytunwyd, yn amodol ar gael derbynebau priodol a thystiolaeth o bresenoldeb;

(ii) y bydd Swyddogion Cyllid Cyngor Sir Fynwy yn cydlynu gyda rhai o'r ymgeiswyr i drafod cyfyngiadau ar wariant yng nghyswllt rhaii eitemau o offer y gwnaed cais amdanynt, yn ogystal â thrafod gofynion meddalwedd un o'r ymgeiswyr.

6. **Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.**

Y dyddiad sydd ar yr amserlen ar gyfer cyfarfod nesaf Ymddiriedolaeth Gwaddol Fferm Sir Fynwy yw dydd Llun 18 Gorffennaf 2022 am 11.00 a.m. Fodd bynnag, gan fod y cyfarfod hwn yn debygol o gyd-daro â Sioe Frenhinol Cymru, efallai na fyddai rhai Ymddiriedolwyr yn medru mynychu'r cyfarfod.

Penderfynwyd fod y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn ymchwilio dyddiad arall ym mis Gorffennaf 2022 ar gyfer cyfarfod nesaf Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy.